Y Gwir Anrhydeddus Yvette Cooper AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cartref, Tŷ'r Cyffredin

24 Tachwedd 2016

Annwyl Gadeirydd

Mae Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru.

Atodaf gopi o lythyr at Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref lle rwyf wedi gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor, gan fod y pwnc yn croesi dros feysydd polisi datganoledig a meysydd polisi sydd heb eu datganoli.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi a yw'r Pwyllgor Dethol Materion Cartref wedi ymgymryd ag unrhyw waith diweddar yn y maes hwn a allai fod yn berthnasol i'n hymchwiliad. Yn y lle cyntaf, gall fod yn ddefnyddiol, os ydych yn cytuno, i'ch clerc gysylltu â'r prif glerc ar gyfer ein hymchwiliad: Christopher Warner (christopher.warner@cynulliad.cymru, 0300 200 6360).

Byddwn yn fwy na pharod i drafod hyn, neu unrhyw faterion eraill sydd o ddiddordeb i'r ddau Bwyllgor, gyda chi maes o law.

Anfonaf gopi o’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig.

Yn gywir

John Griffiths AC / AM
Cadeirydd / Chair

Copi: David T C Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.